

YSGOL EIFIONYDD PORTHMADOG



Prosbectws / Prospectus

2025-2026

Byddwch yn rhagorol!



GWYBODAETH I RIENI

INFORMATION FOR
PARENTS
2025—26

Ysgol Eifionydd, Porthmadog,
Gwynedd. LL49 9HS

Ffôn / Tel: 01766 512114

e-bost/e-mail:

cyffredinol@eifionydd.ysgoliongwynedd.cymru

Gwefan/Website: ysgoleifionydd.org

Pennaeth / Headteacher:

Mr. Dewi Bowen

Cadeirydd y Llywodraethwyr /

Chairman of Governors:

Miss Nerys Jones

Be Outstanding!

Croeso

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i Ysgol Eifionydd a chyflwyno'r llawlyfr yma sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am yr ysgol. Sefydlwyd yr ysgol yn 1894 ac mae gan yr ysgol draddodiad hir fel sefydliad llwyddiannus a hapus.

Mae dechrau mewn ysgol uwchradd newydd yn gam mawr i blentyn a phwrpas y llawlyfr yma yw ateb rhai o'r cwestiynau sy'n mynd trwy'r meddwl.

Mae'r ysgol yn cynnig addysg i ddisgyblion rhwng 11 a 16 mlwydd oed ac yn gwasanaethu trefi Porthmadog, Cricieth a phentrefi gwledig yr ardal.

Ein gweledigaeth yw sicrhau disgyblion dwyieithog hyderus sy'n cyrraedd y safonau uchaf posib trwy ymdrech parhaus, cydweithio a pharchu eraill. Ein neges i'n disgyblion ydy **BYDDWCH YN RHAGOROL!**

Byddwn yn cefnogi ein disgyblion:

- i fod yn yn ddisgyblion hyderus sy'n rhoi o'u gorau gyda'r gallu i ddysgu yn annibynnol â'r meddylfryd o ddatblygu eu hunain;
- i fod yn ddisgyblion sy'n barod i gydweithio gydag eraill, cefnogi ei gilydd a pharchu pawb;
- drwy sicrhau cwricwlwm addas a diddorol i ddisgyblion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Mae gan yr ysgol ethos groesawgar a chefnogol felly cofiwch gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Dewi Rhys Bowen
Pennaeth

Welcome

I am pleased to welcome you to Ysgol Eifionydd and present this handbook that provides useful information about the school. The school was established in 1894 and has a long tradition as a happy and successful establishment.

Starting at a new secondary school is a big step for a child and the purpose of this booklet is to answer some of the questions that you may have.

The school provides education for pupils between 11 and 16 years old and serves the towns of Porthmadog, Cricieth and the rural villages of the area.

Our vision is to ensure bilingual pupils that can confidently achieve the highest possible standards through continuous effort, co-operation and respect for others. Our message to our pupils is **BE OUTSTANDING!**

We will support our pupils:

- to ensure confident pupils who give of their best with the ability to learn independently and with a growth mindset;
- to ensure that pupils are willing to co-operate with others, and respect everyone whilst supporting each other;
- by ensuring an interesting and appropriate curriculum for pupils, preparing them for the twenty-first century.

The school has a welcoming and supportive ethos so please contact us if you have any further questions.

Dewi Rhys Bowen
Headteacher

RHESTR STAFF – MEDI 2025

MEMBERS OF STAFF - MEDI 2025

Enw Name	Cyfrifoldeb	Responsibility
Tim Rheoli		
Mr. Dewi Bowen	Pennaeth	Head teacher
Mrs. Lyn Parry Hughes	Pennaeth Cynorthwyol (Bugeiliol)	Assistant Head teacher, (Pastoral)
Miss Sioned Williams	Pennaeth Cynorthwyol (Systemau)	Assistant Head teacher, (Systems)
i-Gyfathrebu		
Mrs. Eirian Môn Roberts	Pennaeth i-Gyfathrebu, Pennaeth Cymraeg	Head of i-Communicate (i-Gyfathrebu), Head of Welsh
Mrs. Mary Gwyn	Pennaeth Saesneg	Head of English
Mrs. Eiliw Haf Roberts	Pennaeth Ieithoedd Modern, Pennaeth Blwyddyn 8	Head of Modern Languages, Head of Year 8
Mrs. Laura Hughes	Cymraeg, Pennaeth Blwyddyn 9	Welsh, Head of Year 9
Mrs. Catrin Elan Roberts	Cymraeg, Saesneg, Cydlynnydd Iaith a Llythrennedd, Cydlynnydd BAC	Welsh, English, Language and Literacy Co-ordinator, BAC Co-ordinator
Mrs. Bethan Mortimer	Saesneg	English
Miss Samantha Tipton	Saesneg, Hanes	English, History
Mrs Llinos Medi Edwards	Cydlynnydd ADY	SEN Co-ordinator
i-Ddarganfod		
Mr. Gareth Jones	Pennaeth i-ddarganfod, Pennaeth Gwyddoniaeth, Cemeg	Head of i-Discover (i-ddarganfod), Head of Science, Chemistry
Miss Blodeuwedd Tegid	Gwyddoniaeth, Ffiseg	Science, Physics
Miss Mirain Rhys	Gwyddoniaeth, Bioleg	Science, Biology
Miss Sioned Williams	TGAU Ffasiwn a Thecstilïau	GCSE Fashion and Textiles
Miss Alaw Teleri Roberts	Pennaeth Dylunio a Thechnoleg, Celf	Head of Design and Technology, Art
Miss Sian Alun Jones	Dylunio a Thechnoleg, Pennaeth Celf, Pennaeth Blwyddyn 10	Design and Technology, Head of Art, Head of Year 10
Mr. Phil Kitchen	Dylunio a Thechnoleg, Technegydd	Design and Technology
i-Gyfrifo		
Miss Nia Evans	Pennaeth i-Gyfrifo, Pennaeth Mathemateg	Head of i-Calculate (i-Gyfrifo) Maths
Mrs. Helen Puw	Mathemateg	Maths
Mrs. Cathryn Roberts-Williams	Mathemateg, Cydlynnydd Cymhwysedd Digidol / Cyfrifiadureg	Maths, Digital Competency Co-ordinator / Computer Science
Mrs. Llio Griffiths	Mathemateg, Cydlynnydd Rhifedd, Addysg Gorfforol	Maths, Numeracy Co-ordinator, Physical Education
i-feddl		
Mrs. Glenda Murray	Pennaeth i-feddl, Pennaeth Dyniaethau, Daearyddiaeth, Cydlynnydd Cynaliadwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-eang	Head of i-think (i-feddl), Head of Humanities, Geography, Sustainability and Global Citizenship Co-ordinator
Mrs. Miriam Amllyn	Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Astudiaethau Crefyddol, Pennaeth Blwyddyn 7	Religion, Values and Ethics, Religious Studies, Head of Year 7
Miss Samantha Tipton	Hanes, Saesneg	History, English
Mr. Sion Cadwaladr	Swyddog Cynhwysiad, Busnes, Cymraeg, Pennaeth Blwyddyn 11, Cyd-gysylltydd Gyrfaoedd, Swyddog Arholiadau	Inclusion Officer, Business, Welsh, Head of Year 11, Careers Co-ordinator, Examinations Co-ordinator
i-Greu		
Miss Sian Alun Jones	Pennaeth i-Greu, Pennaeth Celf, Pennaeth Blwyddyn 10	Head of i-Create (i-Greu), Head of Art, Head of Year 10
Mrs. Llio Dudley Roberts	Cerdd, Drama, Uwch Gymhorthydd HLTA, Goruchwyliwr Canol Dydd, Anogwr Dysgu	Music, Drama, Senior Assistant HLTA, Lunchtime Supervisor, Learning Support
i-Ddatblygu		
Miss Alaw Roberts	Pennaeth i-Ddatblygu, Pennaeth Dylunio a Thechnoleg, Celf	Head of i-Develop (i-Ddatblygu), Head of Design and Technology, Art
Mrs. Llio Griffiths	Addysg Gorfforol, Mathemateg	Physical Education, Maths
Mr. Ian Roberts	Pennaeth Addysg Gorfforol	Head of Physical Education
Miss Lois Evans	Addysg Gorfforol	Physical Education
Cymorthyddion		
Mr. Gareth Crowe	Swyddog Cefnogi Plant a Theuluoedd	Family and Pupil Support Officer
Miss Catrin Baum	Cymhorthydd ADY	SEN Classroom Assistant
Miss Colleen Edwards	Cymhorthydd ADY	SEN Classroom Assistant
Miss Ellie Jones	Cymhorthydd ADY	SEN Classroom Assistant
Miss Nia Alaw Jones	Uwch Gymhorthydd Cefnogaeth Dysgu (Cyflenwi) HLTA, Goruchwyliwr Canol Dydd	Senior Learning Support Assistant (Cover) HLTA, Lunchtime supervisor
Mr. Manocha Lewis	Cymhorthydd ADY	SEN Classroom Assistant
Mrs. Helen Morris	Cymhorthydd ADY	SEN Classroom Assistant
Mr. Sion Parry	Uwch Gymhorthydd ADY HLTA	SEN Senior Classroom Assistant HLTA
Mrs. Lona Roberts	Uwch Gymhorthydd Cefnogaeth Dysgu (Cyflenwi) HLTA, Goruchwyliwr Canol Dydd, Anogwr Dysgu	Senior Learning Support Assistant (Cover) HLTA, Lunchtime supervisor, Learning Support
Mrs. Sarah Williams Smith	Cymhorthydd ADY	SEN Classroom Assistant
Mrs. Bethan Tipton	Cymhorthydd ADY, ELSA, Agored Cymru	SEN Classroom Assistant, ELSA, Agored Cymru
Miss Nina Wyn	Cymhorthydd ADY	SEN Classroom Assistant

Miss Nyfain Wynn	Uwch Gymhorthydd Iaith	SEN Classroom Assistant, Higher Level Teaching Assistant - Literacy
Mrs. Marian Crowe	Rheolwr Busnes	Business Manager
Mrs. Myfanwy French	Swyddog Cefnogi Ysgol - Presenoldeb	School Support Officer - Attendance
Mrs. Heulwen Poxon	Ysgrifenyddes	School Secretary
Miss Meleri Williams	Swyddog Cefnogi Ysgol – SIMS, Cefnogi Rheolwr Busnes	School Support Officer – SIMS, Business Manager Support
Mrs. Bethan Hughes	Cogyddes	Cook in Charge
Mr. Gareth Pritchard	Gofalwr, Goruchwyliwr Canol Dydd	Caretaker, Lunchtime supervisor



GWYBODAETH SYLFAENOL

Ysgol gyfun cyd-addysgol dwy-ieithog yw Ysgol Eifionydd sy'n paratoi addysg ar gyfer dysgwyr 11 i 16 oed. Ar hyn o bryd ceir 374 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

BASIC INFORMATION

Ysgol Eifionydd is a bilingual co-educational comprehensive school for learners between the ages of 11 to 16 years. At the moment there are 374 pupils registered at the school.

Rhif Mynediad Entry Number	Nifer y ceisiadau i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2024 Number of applications to Year 7, September, 2024	Canran a ganiatawyd Percentage accepted
135	74	100%

Y Diwrnod Ysgol

Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 8:55yb ac yn gorffen am 3:20yp. Dyma drefn y dydd:

School Day

The school day commences at 8:55am and ends at 3.20pm. This is the daily timetable:

Cofrestr a Gwasanaeth	8:55—9:15	Registration and Morning Service
Gwers 1	9:15—10:15	Lesson 1
Egwyl	10:15—10:30	Break
Gwers 2	10:30—11:30	Lesson 2
Gwers 3	11:30—12:30	Lesson 3
Cinio	12:30—1:15	Lunch
Cofrestru	1:15—1:20	Registration
Gwers 4	1:20—2.20	Lesson 4
Gwers 5	2:20—3:20	Lesson 5

Bydd staff ar safle'r ysgol i gymryd gofal o'r disgyblion o 8:40yb hyd at 3:45yp bob diwrnod.

TREFNIADAU YMWELD

Dylai rhieni sy'n dymuno ymweld â'r ysgol wneud trefniadau ymlaen llaw gyda Phrif Swyddfa'r Ysgol trwy ffonio 01766 512114.

Gwneir trefniant arbennig i rieni darpar ddisgyblion gyfarfod â'r Pennaeth ar noson benodol yn ystod tymhorau'r Hydref a'r Haf. Fel arfer bydd plant ysgolion y dalgylch hefyd yn cael cyfle i ymweld â'r ysgol am ddeuddydd yn ystod pythefnos olaf y flwyddyn ysgol. Bydd y Pennaeth Cynorthwyol yn ymweld ag ysgolion cynradd dalgylch Ysgol Eifionydd yn ystod tymor yr Hydref a'r Haf.

Staff will be on site every school day to supervise the pupils from 8:40am until 3:45pm

VISITING ARRANGEMENTS

Parents who wish to visit the school should make prior arrangements with the Main Office by phoning 01766 512114.

Special arrangements are made for parents of prospective pupils to meet the Head teacher on a particular evening during the Autumn and Summer terms. Usually, children from schools within the catchment area will have the opportunity to make a two-day visit to the school during the last fortnight of the school year. The Assistant Head teacher will visit the Primary Schools in the catchment area of Ysgol Eifionydd during the Autumn and Summer Term.

SUT I GAEL GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae'r ysgol yn ymhyfrydu yn y cysylltiadau da sy'n bodoli rhyngddi â rhieni. Mae'n rhan o weledigaeth sylfaenol yr ysgol na all disgybl lwyddo'n llawn heb gydweithrediad llwyr rhwng yr ysgol â'r cartref. Darperir calendr blynyddol o ddiwyddiadau'r flwyddyn a gwybodaeth bellach i rieni ynglŷn â digwyddiadau arbennig.

Mae croeso i rieni ymweld â'r ysgol i weld y cofnodion a gedwir ynglŷn â'u plant. Gofynnwn i rieni wneud apwyntiad o flaen llaw ar gyfer hyn.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd er mwyn i rieni drafod gwaith eu plant gyda'u hathrawon ac os bydd rhieni yn teimlo fod angen mwy o wybodaeth gellir trefnu hynny trwy Swyddfa'r Ysgol.

GWYLIAU'R YSGOL

Trefnir y rhain yn flynyddol gan yr Awdurdod Addysg Lleol a chaiff pob disgybl gopi o'r dyddiadau. Ym mis Medi caiff pob disgybl galendr o brif ddiwyddiadau'r flwyddyn.

TREFNIADAETH A CHWRICWLWM

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng y meysydd cwricwlaidd a grybwyllir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ynghyd â'r elfennau trawsgwricwlaidd megis Addysg Personol a Chymdeithasol i bob disgybl yn yr ysgol. Cynigir cefnogaeth penodol i ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig.

Fframwaith Academaidd yr Ysgol

Mae fframwaith academaidd yr ysgol wedi ei seilio ar adrannau pynciol. Mae Pennaeth Adran yn gyfrifol am bob pwnc neu grŵp o bynciau.

Trefn dosbarthiadau a chwricwlwm

BLWYDDYN 7—Sut mae'r plant yn cael eu rhoi at ei gilydd mewn dosbarth?

Mae Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol yn ymweld â phob ysgol gynradd er mwyn cyfarfod plant Bl.6. Mae'n fwriad i ddod i'w hadnabod yn well trwy ddarganfod ei anghenion a gofynion. Mae pob ymdrech i gadw ffrindiau gyda'i gilydd lle mae hynny'n briodol ac yn bosibl. Os nad yw y plentyn yn hapus mewn dosbarth ar ôl iddo/i ddechrau gyda ni, byddwn yn ystyried ei symud i ddosbarth arall os yw hynny'n addas i'w anghenion addysgol.

HOW TO GET FURTHER INFORMATION

The school prides itself on its good relationship with parents. An essential element in the school's underlying philosophy is that no pupil can succeed fully without there being complete understanding and co-operation between school and home. An annual calendar of events is given to parents and additional information provided for special events.

Parents who wish to see information concerning their children are welcome to do so. We ask parents to make an appointment beforehand for this purpose.

Regular meetings are held so that parents can discuss their children's progress with their teachers. If parents feel they need more information then arrangements can be made via the School Office.

SCHOOL HOLIDAYS

These are arranged annually by the Local Education Authority and in September every pupil will be given a copy of these dates as well as a calendar of the main events of the school year.

ORGANISATION AND THE CURRICULUM

The school offers a curriculum which ensures a balance between the curricular areas referred to in the National Curriculum, and the cross-curricular elements such as Personal and Social Education for every pupil in the school. Special support is offered to those pupils with special educational needs.

Academic Structure

The school's academic structure is based on subject departments. A Head of Department is responsible for each subject or group of subjects.

Group organisation and curriculum

YEAR 7—How are pupils put together in a class?

The Assistant Headteacher visits every primary school in order to meet the children in year 6. The visit aims to discover more about the pupils needs and requirements and every attempt is made to keep friends together. If a pupil is not happy in a class we make arrangements to move him/her to another class if this is possible.



Bydd pob disgybl yn astudio'r canlynol:

Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Mathemateg, Dyniaethau, Gwyddoniaeth, Cerdd, Addysg Gorfforol, Celf, Dylunio a Thechnoleg, Cyfrifiadureg ac Iechyd a Lles a Drama. Mae addysgu a dysgu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwyso Digidol yn rhan bwysig iawn o'r Cwricwlwm Newydd.

Byddai disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn derbyn hyn mewn dosbarth llai.

BLWYDDYN 8

Mae Cwricwlwm Blwyddyn 8 yn ddilyniant o flwyddyn 7 ag eithrio bod Cyfrifiadureg yn cael ei addysgu arwahan. Mae disgyblion yn cael eu haddysgu yn ôl eu gallu yn y Gymraeg, Saesneg a Mathemateg ac ni chynigir drama.

BLWYDDYN 9

Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu yn ôl eu gallu yn y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gweddill y pynciau yn debyg i flwyddyn 8.

BLYNYDDOEDD 10 / 11

Yn mlynnyddoedd 10 ac 11 mae'r disgyblion yn dilyn y cwricwlwm statudol sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol ac ABaCh. Mae pob disgybl hefyd yn cwblhau y Fagoloriaeth Gymreig.

Yn ychwanegol maent yn dilyn tri pwnc dewisol sy'n arwain at y cymwysterau TGAU, Tystysgrifau Galwedigaethol BTEC.

Dewisiadau Pynciau CA4 2024 oedd:

Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
Mathemateg a Mathemateg Rhif
Gwyddoniaeth
Gwyddoniaeth Cymhwysol
Bwyd a Maeth (TGAU)
Dylunio a Thechnoleg—Dylunio Cynnyrch (TGAU)
Celf (TGAU)
Tecstilïau (TGAU)
Astudiaethau Crefyddol (TGAU)
Daearyddiaeth (TGAU)
Hanes (TGAU)
Addysg Gorfforol (TGAU)
Cerdd (TGAU) (Glan y Môr)
ABaCh (Agored Cymru)
Tystysgrif Estynedig Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith (Agored Cymru)
Cymru, Ewrop a'r Byd (Agored Cymru)
Cyfrifiadureg (TGAU)
Ffrangeg (TGAU)
Busnes (BTEC)

The pupils will study the following subjects:

Welsh, English, French, Mathematics, Humanities, Science, Music, Physical Education, Art, Design and Technology, Computer Science and Health and Wellbeing and Drama
The teaching and learning of Literacy, Numeracy and Digital Competence skills are a very important part of the New Curriculum.

Pupils who require additional support will receive this in a smaller class.

YEAR 8

Year 8 is a continuation of the Year 7 curriculum with the exception that Computer Science is taught separately. Pupils are taught according to their ability in Welsh, English and Mathematics and drama is not offered

YEAR 9

The pupils are taught in groups according to their ability in regards to Welsh, English, Mathematics and Science. The provision of all other subjects is similar to year 8.

YEARS 10 / 11

During year 10 and 11 the pupils will follow the statutory curriculum of Welsh, English, Mathematics, Science, Physical Education, Religious Education, PSE and the Welsh Baccalaureate.

In addition they will be following three optional subjects which lead to GCSE and BTEC Vocational Certificates.

The 2024 KS4 Options were:

Welsh Language and Literature
English Language and Literature
Mathematics and Mathematics Numeracy
Science
Applied Science
Food and Nutrition (GCSE)
Design and Technology—Product Design (GCSE)
Art (GCSE)
Textiles (GCSE)
Religious Studies (GCSE)
Geography (GCSE)
History (GCSE)
Physical Education (TGAU)
Music (TGAU) (Glan y Môr)
PSE (Agored Cymru)
Certificate in Work Related Education (Agored Cymru)

Welsh, Europe and the World (Agored Cymru)
Computer Science (GCSE)
French (GCSE)
Business (BTEC)

Amaethyddiaeth / Diwydiannau'r Tir (BTEC) (Glynllifon)
 Peirianeg (Pwllheli)
 Cyfryngau Rhyngweithiol (Pwllheli)
 Gwobr Dug Caeredin Efydd gyda cymhwyster Awyr Agored
 (Agored Cymru)

Agriculture/Land based (BTEC) (Glynllifon)
 Engineering (Pwllheli)
 I-Media (Pwllheli)
 Duke of Edinburgh Bronze award with Outdoor
 qualification (Agored Cymru)

Oherwydd y pandemig Cofid nid oes mesuriadau
 cenedlaethol cymharol yn 2020 na 2021.

Because of the Covid pandemic there are no
 comparative measurements for 2020 and 2021.

	Cymru 2024	Eifionydd 2022	Eifionydd 2023	Eifionydd 2024
Sgôr Cap 9 Cap 9 Score	351pt	375.2pt	374.6pt	379pt
Sgôr Llythrennedd Literacy Score	38.5pt	42.99pt	42.5pt	41.9pt
Sgôr Rhifedd Numeracy Score	35.9pt	39.53pt	42.4pt	42.5pt



ADDYSG IECHYD

Mae Addysg Iechyd (gan gynnwys addysg rhyw) yn rhan o raglen Iechyd a Lles yr Ysgol. Cynhelir gwersi Iechyd a Lles ymhob blwyddyn ysgol a chyflwynir materion megis glendid personol, defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, bwyta'n iach, creu perthynas, addysg bywyd teuluol, atal cenhedlu, atal afiechydon fel AIDS a chyfrifoldebau yr unigolyn am eu penderfyniadau a'u diogelwch personol.

Dysgir gwybodaeth ffeithiol yn ystod y gwersi Gwyddoniaeth a rhai gwersi eraill a defnyddir ymgynghorwyr Iechyd a'r heddlu i gyflwyno rhai agweddau.

Nid oes gan rieni yr hawl i eithrio'u plentyn o'r cyfan neu o ran o raglen addysg rhyw yr Ysgol.

ADDYSG GYRFAOEDD A PHROFIAD GWAITH

Mae'r cwmni Gyrfa yn rhoi arweiniad a gwybodaeth yrfaol i bobl ifanc. Mae Swyddog Gyrfaoedd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i weld disgyblion blwyddyn 10 ac 11 unigol ac mewn grwpiau. Cyswllt Fideo yn ystod y pancemig. Yn arbennig mae'r Swyddog Gyrfaoedd:

- yn rhoi gwybodaeth am addysg, cyfleoedd hyfforddi a swyddi;

- yn rhoi cyngor ynglŷn â chyrsgiau coleg;

- yn rhoi arweiniad i bobl ifanc yn eu dewis o yrfa.

Yn arferol trefnir lleoliadau Profiad Gwaith gyda'r disgyblion yn ystod blwyddyn 10 ac mae'r Profiad Gwaith yn digwydd ar ddiwedd blwyddyn 10.

HEALTH EDUCATION

Health Education (including sex education) is part of the school's Health and Wellbeing programme. All school years receive Health and Wellbeing lessons introducing matters such as personal hygiene, using and abusing substances, healthy eating, forming relationships, family life education, contraception, preventing diseases such as AIDS, and the responsibilities of the individual for their own choices and safety.

Factual information is taught during Science lessons and some other lessons and health advisors and the Police are used to present certain aspects.

Parents do not have the right to withdraw their children from parts, or from the whole of the school's sex education programme.

CAREERS AND WORK EXPERIENCE

The Careers Company provides careers guidance and information to young people. A Careers Officer visits the school regularly to see pupils individually and in groups. Video link during the pandemic. In particular the Careers Officer:

- provides information on education, training opportunities and jobs;

- gives advice about college courses;

- gives guidance to young people on their choice of career.

Usually Work Experience is arranged with pupils during Year 10 and the work experience takes place at the end of Year 10.



ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Ceisiwn sicrhau y ddarpariaeth addysgol orau ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol. Edrychir yn fanwl ar yr holl wybodaeth o'r cynradd trwy gyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn cyn trosglwyddo.

Prif egwyddor ac amcan ADY yr ysgol yw sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i holl blant yr ysgol, beth bynnag fo'u cyflwr addysgol, corfforol neu feddygol. Dylid sicrhau'r nod yma yn ddieithriad.

Mae'r ysgol yn anelu at safonau uchel ar gyfer pawb a chymhwysiad cymdeithasol llawn. Gwneir hyn trwy ateb gofynion deddf gwlad, trwy ddarparu yn ôl cyfarwyddyd ac arweiniad yr AALL a thrwy weithio yn fewnol mewn cydweithrediad â rhieni ac asiantaethau allanol, a hynny dan arolygaeth y Corff Llywodraethol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau deunyddiau addas ar gyfer y disgyblion.

Cyfrifoldeb Mrs. Llinos Medi Edwards, y Cydlynnydd ADY, yw sicrhau fod y ddarpariaeth ADY yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gywir. Mae croeso bob amser i drafod unrhyw bryder gyda hi.

Asiantau Allanol Cynhaliol

Cydweithir yn gyfeillgar / broffesiynol ag asiantau perthnasol megis:

- y Seicolegydd Addysg;
- Swyddog Llês
- Cwmselydd Ysgol;
- yr Adran Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol; CAMHS, athrawon nam clyw a golwg ac athrawon arbenigol iaith a lleferydd;
- cedwir cysylltiad agos ag:
 - o ysgolion uwchradd cyfagos i rannu syniadau;
 - o Ysgolion cynradd y dalgylch (mynychu'r addysgiadau blynyddol Bl.6);
 - o Cynrychiolydd ADY y corff llywodraethol – Miss Lucy Hemmings;
 - o Rhieni disgyblion ar y gofrestr ADY
 - o Uned Dyslecsia Prifysgol, Bangor;
 - o Coleg Grŵp Llandrillo Menai;
 - o Tim o Amgylch y Teulu;
 - o Nyrs Ysgol.

ADDITIONAL EDUCATIONAL NEEDS

We will try and ensure the best possible educational provision for pupils transferring to the school. Information from the Primary School is carefully studied through regular meetings during the year before transferring.

The main aim and objectives of the school's ALN policy is to ensure equal opportunity both educationally and socially, for every pupil in the school, whatever his/her educational, physical or medical situation. This is ensured, without exception.

The school aims for high standards for all and full social inclusion. This is achieved by adhering to statutory obligations, by providing according to the directive and guidance of the LEA and through working in co-operation with parents and outside agencies, under the supervision of the Board of Governors. Every effort is made to ensure the correct resources are available for pupils.

The Special Educational Needs Co-ordinator (SENCO), Mrs Llinos Medi Edwards is responsible for ensuring that the provision is complete and correct. You are welcome to discuss any worries with her.

Supportive External Agents

There is friendly / professional co-operation with relevant agents such as:

- the Educational Psychologist;
- Welfare Officer;
- School Councillor;
- the Careers department and Social Services;
- CAMHS, teachers for hearing and sight and specialist teachers for speech and language;
- there is a close link with:
 - o neighbouring secondary schools to share ideas;
 - o Primary Schools (Year 6 annual reviews are attended);
 - o The Governing Body SEN representative – Miss Lucy Hemmings;
 - o Parents;
 - o The Dyslexia Unit at Bangor University;
 - o Further Education – Llandrillo Menai Group;
 - o Team around the family;
 - o School Nurse.

ADDYSG GREFYDDOL

Nid yw'r ysgol yn dal cysylltiad ag unrhyw enwad crefyddol a darperir addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cydnabyddedig. Os oes unrhyw riant yn gwrthwynebu'n gydwybodol i'w blentyn dderbyn gwarsi addysg grefyddol neu fynychu'r gwasanaeth boreol gellir gwneud trefniant addas.

ASESU

Mae'r ysgol yn gweithredu system o Asesu Parhaus. Bydd athrawon pwnc a thiworiaid y disgyblion yn cadw cofnod manwl o'u cynnydd ym mhob pwnc a bydd yr athrawon, Penaethiaid Adrannau, y tiwtoriaid dosbarth a'r Penaethiaid Blwyddyn yn monitro'u cynnydd yn gyson.

Bydd pob disgybl Blwyddyn 7 - 9 yn derbyn aseiniadau cyson ym mhob pwnc. Anfonir Adroddiad Interim at y rhieni ddiwedd Tymor y Nadolig a'r Pasg. Cyflwynir adroddiad llawn i rieni ddiwedd tymor yr Haf.

Anfonir tystysgrifau y **Cynllun Gwobrwyo** at rieni ar ddechrau hanner tymor Nadolig, Pasg a'r Sulgwyn. Mae'r adroddiad yn adrodd ar barch, ymddygiad a phrydlondeb.

Bydd rhieni / gwarchodwyr disgyblion blwyddyn 10 ac 11 yn derbyn adroddiad llawn yn flynyddol ar gynnydd eu plentyn. Anfonir adroddiad interim i rieni disgyblion Bl.10 ac 11 bob hanner tymor.

GWAITH CARTREF

Mae gwaith cartref yn ran anatod o addysg disgyblion. Disgwylir i bob disgybl gwblhau gwaith cartref yn rheolaidd. Bydd yr ysgol yn recordio gwaith cartref mewn Google Classroom ar 'stafell Hwb Cymru. Gofynnir i rieni ei wirio yn rheolaidd.

Mae'r app Class Charts yn cael ei ddefnyddio i fornitro ymddygiad.

Gofynnir am gefnogaeth llawn rhieni/gwarchodwyr i sicrhau fod gwaith cartref yn cael ei gyflwyno'n brydlon ac i'r safon gorau posib. Gall rhieni/gwarchodwyr helpu disgyblion gyda gwaith cartref mewn amrywiol ffyrdd:

- anogaeth a chefnogaeth;
- gwirio taclusrwydd a chywirdeb y gwaith;
- cymorth wrth adolygu at brofion ac arholiadau;
- sicrhau fod disgyblion yn darllen eu llyfrau llyfrgell a gwranddo arnynt yn darllen.

RELIGIOUS EDUCATION

The school has no religious affiliation and religious education is provided in accordance with the agreed syllabus. If a parent has genuine grounds for objecting to their child receiving religious instruction or attending morning assembly suitable arrangements can be made.

ASSESSMENT

The school operates a system of Continuous Assessment. A detailed record will be kept of the pupils' progress within the subjects and by their group tutors. The progress of pupils will be carefully monitored by subject teachers, Heads of Departments, the class tutors and the Heads of Year.

Every pupil in Year 7-9 will be given regular assignments in every subject. Interim Reports will be sent to the parents at the end of the Christmas and Spring Terms. Parents will be provided with a full report at the end of the Summer.

Pupil Reward Certificates are sent to parents at the start of the Christmas, Easter and Whitsun half terms. The certificates report on the pupil's respect, behaviour and punctuality.

The parents/guardians of pupils in years 10 and 11 will receive a full annual report on their son/daughter's progress. An Interim Report will be sent to parents of Year 10 and 11 pupils every half term.

HOMEWORK

Homework is an integral part of pupils education. Every pupil is expected to complete homework regularly. The school uses Google Classrooms with the Hwb Cymru platform to record their homework. Parents are asked to check regularly.

Class charts is an app that is used to monitor behaviour.

Parents/Guardians are asked for their full support in ensuring that homework is presented punctually and to the best possible standard. Parents/Guardians can help pupils with homework in several ways:

- encouragement and support;
- checking neatness and accuracy;
- help with revision for tests and exams;
- ensuring pupils read their library books, and listening to them reading.

Cynhelir Clwb Gwaith Cartref yn Llyfrgell yr ysgol rhwng 3:20 a 4:20 p'nawn Llun i b'nawn Iau.

PROFION AC ARHOLIADAU

Bydd pynciau unigol yn gosod profion yn ystod y gwersi. Mae adolygu ar gyfer rhain yn hanfodol i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i'w paratoi ar gyfer arholiadau.


Cynhelir arholiadau i flynyddoedd 7, 8 a 9 ar ddechrau Tymor yr Haf. Mae disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 yn sefyll arholiadau mewnol ac allanol.

A homework club is held in the library between 3:20 and 4:20 on Monday to Thursday afternoons.

TESTS AND EXAMINATIONS

Individual subjects will set tests during the lessons. Revising for these is essential to increase pupils' knowledge and understanding and to prepare pupils for examinations.

Exams for Year 7 to 9 are held at the beginning of the summer term. Pupils in Year 10 and 11 sit internal and external exams.



POLISI IAITH

Ein amcan yw datblygu gallu holl ddisgyblion yr ysgol i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas y maent yn rhan ohoni.

CYMRAEG a SAESNEG

Sicrhau fod pob disgybl yn yr ysgol yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau a bod yr holl ddisgyblion sydd â'r gallu angenrheidiol i wneud hynny yn sefyll arholiad allanol priodol yn y ddau bwnc.

CYFRWNG DYSGU A GWEINYDDU

Ein nôd yw gofalu bod pob disgybl yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu er mwyn sicrhau parhad i addysg yr ysgolion cynradd. Bydd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhan o gwrs addysg pob plentyn trwy gydol ei bum mlynedd yn yr ysgol. Sicreir bod modd i ddisgyblion sefyll arholiadau allanol yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl natur ieithyddol y dysgu yn y gwahanol bynciau.

Ethos Gymreig sydd i'r ysgol. Mae y rhan fwyaf o weithgareddau'r ysgol megis gwasanaethau yn cael eu cynnal trwy'r Gymraeg.

Mae disgyblion sy'n hwyr ddyfodiaid yng nghyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 7 i 9) yn cael eu hybu i fynychu'r Ganolfan Iaith sydd ar dir yr ysgol.

POLISI DERBYN YR YSGOL

Mae disgwyl i rieni roi gwybod eu dewis o ysgol i'r Cyngor Sir ar gyfer eu plant yn y mis Tachwedd pan fydd y plant ym Mlwyddyn 6. Yn arferol, dim ond yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn un-ar-ddeg oed y derbynnir plant i'r ysgol. Cyngor Gwynedd yw'r 'awdurdod derbyn' ar gyfer yr ysgol a drwydynt hwy y gweithredir y drefn dderbyn; hwy hefyd sydd yn gweithredu unrhyw broses apêl. 'Rhif Mynediad Safonol' yr ysgol hon yw 135 ac fe dderbyniwyd 74 cais am le yn yr ysgol ar gyfer Medi 2024. Caniatwyd 100%.

LANGUAGE POLICY

Our purpose is to develop the ability of all pupils to be confidently bilingual so that they can fully participate in the society to which they belong.

WELSH AND ENGLISH

Ensure that all pupils study Welsh and English as subjects and that all pupils who have the necessary ability sit the appropriate external examination in both subjects.

THE LANGUAGES OF INSTRUCTION AND ADMINISTRATION

We aim to ensure that all pupils use the two languages as a medium of instruction in order to continue the education received at the primary schools. Welsh and English medium instruction will be part of each pupil's education course throughout the five years at school. It will be ensured that pupils may sit external examinations in Welsh or English or in both languages according to the linguistic nature of the instruction given in the different subjects.

The school has a Welsh ethos with most of the activities happening through the medium of Welsh.

KS3 late comers to the area are encouraged to attend the Language Centre that is on the school premises.

SCHOOL'S ADMISSIONS POLICY

Parents should inform the County Council of their choice of school in the November when their child is in Year 6. Normally, it is only in the September that follows their eleventh birthday that children will be accepted into secondary school. Gwynedd Council is the 'admissions authority' for this school and they administer all applications for admission. They have set a 'Standard Admission Number' of 135 for this school; there were 74 applications for a place here in September, 2024. 100% were accepted.



FFRAMWAITH

Mae trefn gofal bugeiliol yr ysgol yn amcanu at ofalu am les y plentyn, at gadw golwg ar ei ymddygiad a'i gynnydd cyffredinol ac at roi arweiniad iddynt ar ddewis gyrfa.

Pwy sydd yma yn helu:

Mae'r drefn fugeiliol yn seiliedig ar diwtoriaid dosbarth. Mae gan yr athrawon canlynol gyfrifoldeb penodol am ofal bugeiliol blynyddoedd arbennig.

Pennaeth Blwyddyn 7 yw Miss Miriam Amlyn;
Pennaeth Blwyddyn 8 yw Mrs Eiliw Haf Roberts;
Pennaeth Blwyddyn 9 yw Mrs Laura Hughes;
Pennaeth Blwyddyn 10 yw Miss Sian Alun Jones a
Pennaeth Blwyddyn 11 yw Mr. Sion Cadwaladr.
Mrs. Lyn Parry Hughes sydd yn arwain y Tim Bugeiliol.

PENAETHIAID BLWYDDYN

Ein prif ffocws yw sicrhau bod disgyblion yn gallu canolbwyntio ar eu gwaith ysgol a chyrraedd eu llawn botensial.

Rydym yma i helpu ym mhob ffordd posib ac mae unrhyw broblem atal disgyblion rhag cyflawni eu potensial yn broblem sydd angen ei rannu:

- Problemau gyda ffrindiau
- Problemau gartref
- Bwlio
- Problemau gyda gwaith ysgol
- Presenoldeb

SWYDDOG LLES —Miss Heledd Lloyd Williams sydd yn helpu gyda phroblemau presenoldeb yn yr ysgol.

**Targed ein hysgol ydi presenoldeb o 93%.
Mae bob diwrnod yn cyfri!**

BYDIS

Cynllun hybu cefnogaeth gan ddisgyblion blwyddyn 10 ar gyfer disgyblion iau sydd angen cymorth. Mae'r bydis yn cynnig sesiynau mentora un i un ac maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gynghori mewn meysydd fel:

- Ymddygiad
- Bwlio
- Unigrwydd

FRAMEWORK

The school's system of pastoral care is aimed at caring for the child's welfare, supervising their behaviour and general progress and advising them on a choice of career.

Who is here to help:

The pastoral system is based on class tutors. The following teachers have specific responsibility for the pastoral care of certain year groups. The teacher responsible for:

Year 7 is Miss Miriam Amlyn;
Year 8 is Mrs. Eiliw Haf Roberts;
Year 9 is Mrs Laura Hughes;
Year 10 is Miss Sian Alun Jones and
Year 11 is Mr. Sion Cadwaladr.

Mrs. Lyn Parry Hughes leads the Pastoral Team.

HEADS OF YEAR

Our main focus is to ensure that pupils are able to concentrate on school work and are able to achieve their full potential.

We are here to help in any way possible and any problem that hinders a pupils ability to achieve is a problem worth sharing:

- ◆ Problems with friends.
- ◆ Problems at home.
- ◆ Bullying
- ◆ Problems with school work.
- ◆ Attendance

WELFARE OFFICER—

Miss Heledd Lloyd Williams helps with issues regarding attendance
**Our attendance target is 93%.
Every day counts!**

BUDDIES

A scheme promoting support by year 10 pupils for younger pupils who need help. The buddies will offer one to one mentoring sessions and have also received training on how to counsel in areas such as:

- Behaviour
- Bullying
- Loneliness



GWEITHIWR CEFNOGI TEULU A DISGYBLION

Mr. Gareth Crowe

Rydym wedi cyflogi aelod o staff sy'n ymgysylltu'n aml-ddisgyblaethol ar gyfer sicrhau fod disgyblion bregus Ysgol Eifionydd yn derbyn cefnogaeth, sgiliau a'r cyfleoedd unigryw fel eu bod yn llwyddo i symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu waith. Gwneir hyn trwy ddatblygu cysylltiadau effeithiol rhwng yr ysgol, disgyblion, teuluoedd a'r gymuned leol ac i ddarparu'r cymorth a'r sgiliau addas ar eu cyfer.



PUPIL AND FAMILY SUPPORT WORKER

Mr. Gareth Crowe

We have employed a member of staff who engages on a multidisciplinary basis to ensure that vulnerable pupils at Ysgol Eifionydd receive unique support, skills and opportunities to progress to education, training or employment. This is achieved by developing effective links between the school, pupils, families and the local community and providing them with the appropriate support and skills.

ANOGWR DYSGU—Mrs. Llio D. Roberts CA4 a Mrs. Lona Roberts CA3

Mae'r anogwr yn helpu disgyblion sydd â phroblemau gyda gwaith dosbarth, gwaith cartref ac adolygu.



LEARNING COACH—Mrs. Llio D. Roberts KS4 a Mrs. Lona Roberts KS3

The learning coach helps pupils who have problems with class work, home work and revision.

NYRS YSGOL—Mrs. Angela Cronin

Mae'r Nyrs ar gael i roi cyngor ac i ateb cwestiynau sydd efallai yn poeni disgyblion. Gall rhain fod yn y maes:

- Rhyw a rhywioldeb;
- Beichiogrwydd;
- STIs;
- Glendid Personol;
- Diet Cytbwys;
- Cyngor iechyd arbenigol (asthma / clefyd siwgr).

Mae'r Nyrs yn cynnal sesiwn galw mewn ar ddydd Mawrth 12:30—1:25.

SCHOOL NURSE—Mrs. Angela Cronin

The Nurse is available to give advice and answers to questions that may be concerning the pupils. These can be in areas such as:

- Sex and relationships.
- Pregnancy.
- STIs.
- Personal hygiene.
- Balanced diet.
- Professional medical advice (asthma / diabetes).

The Nurse holds a 'Drop-in' session on Tuesday 12:30—1:25.

CWNSELYDD—Miss Glesni Prydderch a Mrs. Mirain Glyn

Mae'r cwnselydd ar gael i ddisgyblion sydd angen trafod gyda rhywun niwtral yn gyfrinachol.

Gall disgyblion ofyn i Mrs. Lyn Parry Hughes eu cyfeirio.

COUNSELLOR—Miss Glesni Prydderch a Mrs. Mirain Glyn

The counsellor is available for pupils who require the opportunity to talk to someone neutral in confidence.

Pupils can ask Mrs. Lyn Parry Hughes to make a referral.



DISGYBLAETH

Credwn fod cynnal disgyblaeth dda yn hanfodol i lwyddiant yr ysgol. Mae gennym systemau disgyblu cadarnhaol sydd yn hyrwyddo ymddygiad da ein disgyblion er mwyn eu cynnal a'u cefnogi'n gynhwysol. Rhoddir pwyslais ar berthynas dda rhwng staff a phlant a rhwng y plant a'i gilydd.

Mae pob athro'n gyfrifol am ymddygiad ei ddosbarth ei hun ond, os oes angen, gall gyfeirio disgyblion i sylw'r Pennaeth Adran, Pennaeth Blwyddyn neu'r Uwch Dim Rheoli. Mewn rhai achosion o gamymddwyn cedwir plentyn i mewn fel cosb ond os yw'n fwriad cadw disgybl ar ôl 3.30 hysbysir y rhiant ymlaen llaw. Mewn achosion mwy difrifol mi fydd disgyblion yn cael gwaharddiad mewnol.

Mae gan y Penneth hawl i atal disgyblion rhag mynychu'r ysgol am unrhyw reswm a ystyria'n ddigonol am gyfnod penodol neu barhaol. Bydd gan rhieni yr hawl i apelio at Gadeirydd y Llywodraethwyr yn erbyn yr ataliad.

Os bydd unrhyw ddisgybl ym meddiant neu o dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon a / neu alcohol fe'i gwaherddir o'r ysgol tra gwneir ymholiadau pellach. Yn ystod y cyfnod hwn ystyrir y priodoldeb o ddwyn yr achos gerbron yr Is-Bwyllgor perthnasol o'r Corff Llywodraethol gyda'r bwriad o wahardd y disgybl yn barhaol. Bydd yr Heddlu yn derbyn gwybodaeth ym mhob achos.

UNED CYNHWYSIAD

Nod Ysgol Eifionydd ydi sicrhau safon uchel o addysgu briodol i pob disgybl. Mae gennym Uned Cynhwysiad yn yr ysgol sydd yn rhoi darpariaeth i unigolion sydd yn fregus yn emosiynol neu/ac ymddygiadol. Mae gennym strategaeth o gyfeirio disgyblion i'r uned yn seiliedig ar amgylchiadau yr unigolyn. Nod yr Uned yw i ail integreiddio pob disgybl i'r prif lif. Athro yr Uned Cynhwysiad yw Mr. Sion Cadwaladr

TREFNIADAU AWR GINIO

Mae'r disgyblion yn aros ar dir yr ysgol amser cinio. Mae'r ffreutur yn paratoi amrywiaeth o fwydydd poeth ac oer a chaniateir pecyn bwyd.

DISCIPLINE

We believe that maintaining good discipline is essential to the success of the school. We have positive behaviour systems that promote good behaviour in order to support all our pupils inclusively. Emphasis is placed on good relationships between staff and children and between the children and each other.

Every teacher is responsible for the conduct of his/her own class, but, if necessary, pupils can be referred to the Head of department, Head of Year or Senior Management Team. If, in some instances of misbehaviour pupils are kept in detention after 3.30p.m., the parents are informed before hand. In more serious incidents pupils will receive an internal exclusion.

The Head teacher has the right to exclude pupils from attending school for any reason which he deems sufficient. Exclusions may be for a fixed period or they may be permanent. Parents have the right to appeal against the exclusion to the Chairman of the Governors.

If any pupil is found in the possession of, or under the influence of illegal drugs and/or alcohol they will be suspended from school whilst further enquiries are made. During this period it will be considered whether it would be appropriate to bring the case before the relevant Sub-Committee of the Governing body with the intention of permanently excluding the child from the school. The police will be informed in each case.



INCLUSION SUPPORT UNIT

Ysgol Eifionydd aims to ensure a high standard of education to all our pupils. We have an Inclusion Unit that provides provision for individuals with emotional and/or behavioural issues. We have a strategy of referring pupils to the Unit in accordance with their individual needs. The aim of the Unit is to re-integrate pupils into the mainstream. The Inclusion Unit teacher is Mr. Sion Cadwaladr.

LUNCH HOUR ARRANGEMENTS

The pupils stay on school grounds during the lunch hour. The canteen prepares a variety of cold and hot meals. Pupils have permission to bring a packed lunch.



CANIATÂD I ADAEL YR YSGOL YN YSTOD Y DYDD

Ni chaiff yr un disgybl adael tir yr ysgol yn ystod y dydd heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y Pennaeth neu gan un o'r Uwch Dim Rheoli. Disgwylir i rieni ysgrifennu llythyr yn gwneud cais am ganiatâd i'w plant adael tir yr ysgol.

ABSENOLDEB

Mae unrhyw absenoldeb o'r ysgol, boed yn un tymor byr neu hirdymor, yn sicr o effeithio ar gynnydd disgybl. Mae'n anodd osgoi bod yn absennol oherwydd salwch ond dylai'r disgybl ymdrechu i fod yn bresennol yn yr ysgol bob amser. **Pan fo disgybl yn absennol, gofynnir i'w rieni / gwarcheidwaid ffonio'r ysgol ar fore'r absenoldeb.**

Gofynnwn i chi beido trefnu eich gwyliau yn ystod y tymor. Ni fydd staff yn paratoi gwaith ar eu cyfer. Ni fydd yr ysgol awdurdodi gwyliau, ond mewn amgylchiadau arbennig.

Hyd ag y bo modd, dylid trefnu ymweliadau â'r meddyg, y deintydd neu'r ysbyty rhwng 9.00 a 9.30 y bore neu ar ôl 3.00 rhag amharu ar addysg y plentyn. **Mae'n ofynnol dod â'r cerdyn apwyntiad neu lythyr i'r ysgol er mwyn egluro'r absenoldeb.**

Disgwylir i rieni sicrhau presenoldeb cyson eu plant yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn cysylltu gyda rhieni drwy neges destun neu alwad ffôn ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb disgybl.

Os bydd disgybl yn cyrraedd yn hwyr i'r ysgol rhaid iddo hysbysu'r swyddfa a'i diwtor dosbarth o'r ffaith yn union ar ôl cyrraedd. Oni wna hyn bydd yn cael ei gofrestru'n absennol.

PROBLEMAU MEDDYGOL

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar waith neu ymddygiad disgybl a llenwi'r ffurflenni perthnasol.

EIDDO PERSONOL

Mae pob disgybl yn gyfrifol am ei eiddo personol. Dylid rhoi enw ar bopeth - dillad, llyfrau, bagiau ac yn y blaen. Ni ddylid gadael unrhywbeth gwerthfawr yn yr ystafelloedd dosbarth, ar y pegiau nac yn yr ystafelloedd newid. Os nad yw'r disgybl yn gallu diogelu eiddo gwerthfawr dylai ei drosglwyddo i'r athro priodol iddynt ofalu amdano.

Rhaid cadw ffonau symudol yn y bag wedi eu diffodd. Os torrir y rheol hon bydd yr ysgol yn cadw'r ffonau a'u dychwelyd yn bersonol i'r rhieni. Mae loceri ar gael yn yr ysgol.

PERMISSION TO LEAVE SCHOOL DURING THE DAY

No pupil may leave the school premises during the day without obtaining the written permission of the Headteacher or a member of the senior management team. Parents are expected to write a letter asking for permission for their children to leave school premises.

ABSENCE

Short or long term absence from school is certain to have an effect on a pupils progress. Absence due to illness is inevitable but otherwise a pupil should make every effort to attend school regularly. **Parents / guardians of pupils absent from school are requested to phone the school on the morning of absence.**

We ask that you don't arrange your holidays during the school term. The staff will not prepare work for the pupils. The school will not authorize holidays only in special circumstances.

As far as possible visits to dental or medical surgeries or to the hospital should be arranged between 9.00 and 9.30am or after 3.00pm so that they interfere as little as possible with the child's education. It is necessary to bring an appointment card or letter to school to explain the absence.

It is expected that parents ensure that their children attend school regularly. The school will contact parents by texting or phoning on the first day of a pupil's absence.

If a child is late for school he/she must report to the school office and to his/her group tutor immediately on arrival, otherwise he/she will be marked absent.

MEDICAL PROBLEMS

Parents are expected to report any medical condition which could affect a pupil's work or behaviour and complete the appropriate forms.

PERSONAL PROPERTY

Pupils are responsible for their own personal property. The pupil's name should be clearly marked on all articles - clothes, books, bags, etc. Valuables should not be left in classrooms, on the pegs or changing rooms. If pupils are unable to safeguard valuables, they should be handed to the appropriate teacher for safe-keeping.

Mobile phones should be switched off and kept in the school bag. If this rule is broken the phone will be confiscated and returned personally to the parents. School lockers are available.

DIFRODI NEU GOLLI EIDDO'R YSGOL

Disgwylir i unrhyw un sy'n niweidio neu'n difrodi eiddo wneud iawn am y niwed. Os bydd disgybl yn colli eiddo a fenthyciwyd iddo gan yr ysgol disgwylir iddo ddigolledu'r ysgol.

CYFLE CYFARTAL

Mae gan yr ysgol bolisi dwyslyd sy'n cyfeirio at bwysigrwydd creu amodau ffafriol i bob unigolyn er mwyn llwyddo oddi fewn cymdeithas sy'n gofalu am fuddiannau pawb.

AMDDIFFYN A DIOGELU PLANT

Trefniadau Amddiffyn a Diogelu Plant yw prif flaenoriaeth yr ysgol ac mae ei holl staff a'r Llywodraethwyr yn ymwybodol o hyn.

Mae Polisi Amddiffyn Plant Ysgol Eifionydd yn cydymffurfio â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Y person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol hon yw:

Mrs. Lyn Parry Hughes, Pennaeth Cynorthwyol.

Yr ail berson amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol hon yw:

Mr. Dewi Bowen, Pennaeth.

Y Llywodraethwraig Ddynodedig yn yr ysgol yw: Miss Lucy Hemmings a Mrs. Bethan Nickson.

Y Swyddog Amddiffyn Plant Arweiniol Dynodedig yn yr Awdurdod Lleol yw: Mrs. Bethan Helen Jones.

Plant Mewn Gofal

Y person dynodedig sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yw:

Mrs. Lyn Parry Hughes, Pennaeth Cynorthwyol.

DISGYBLION SYDD AG ANGHENION CORFFOROL ARBENNIG

Mae'r ysgol yn ysgol ddynodedig i blant ag anghenion corfforol arbennig ac mae wedi ei haddasu i'r pwrpas hwnnw.

Gwelir y canlynol fel y prif egwyddorion:

Sicrhau safonau uchel a chynhwysiad cymdeithasol llawn.

Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ag anghenion addysgol arbennig.

Cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol perthnasol i'r maes, megis yr Awdurdod Iechyd a'r Gwasanaeth Cymdeithasol.

Sefydlu partneriaeth gyda'r rhieni a'r Cyrff Gwirfoddol sy'n eu cynrychioli.

Sicrhau ymateb ysgol gyfan i anghenion addysgol arbennig a pheidio â chyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

DAMAGE OR LOSS OF SCHOOL PROPERTY

Any pupil who damages or vandalises school property is expected to pay for the damage. If a pupil loses property lent to him by the school, he must compensate for the loss.

EQUAL OPPORTUNITIES

The school has a clear policy referring to the importance of creating favourable conditions for every individual to succeed within a society which cares for the interests of everyone.

CHILD PROTECTION AND SAFEGUARDING

Child Protection and Safeguarding arrangements are the school's main priority – and all the staff and governors are aware of this.

The school's Child Protection Policy conforms to the most recent Welsh Government guidelines.

The designated child protection senior member of staff for Eifionydd is: **Mrs. Lyn Parry Hughes, Assistant Head teacher.**

In her absence the second designated child protection senior member of staff for Eifionydd is: **Mr. Dewi Bowen, Head teacher.**

The School Governor Designated for Child Protection is: Miss Lucy Hemmings and Mrs. Bethan Nickson.

The Local Authority Designated Lead Officer for Child Protection is: Mrs. Bethan Helen Jones.

Looked After Children

The designated person with responsibility for promoting the educational achievement of looked after children is: Mrs. Lyn Parry Hughes, Assistant Head teacher.

PUPILS WITH SPECIAL PHYSICAL NEEDS

The school is a designated school for pupils with special physical needs and has been adapted for that purpose.

The main principles are to:

Ensure high standards and full social inclusion.

Ensure an equal opportunity both curricularly and socially for children who have special educational needs.

Co-operate effectively with statutory agencies, such as the Health Authority and the Social Services.

Establish partnership with parents and with the Voluntary Bodies that represent them.

Ensure a whole school response to special educational needs and not confine responsibility to specific members of staff.

IECHYD A DIOGELWCH YN YR YSGOL

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu Polisi Iechyd a Diogelwch a Lles Cyngor Gwynedd (copi ar gael yn yr ysgol). Mae cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch ym mhob un o'r adrannau canlynol: Dylunio a Thechnoleg, Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol. Os oes unrhyw broblem mae staff yr ysgol yn adrodd i'r Cyd-lynnydd Iechyd a Diogelwch a bydd y Cyd-lynnydd yn gwneud y trefniadau perthnasol. Bydd dril tân unwaith y tymor yn ôl y gofynion. Mae nifer o aelodau'r staff wedi eu hyfforddi i weinyddu Cymorth Cyntaf ac eraill yn farsialiaid tân.

TEITHIO I'R YSGOL

Trefnir cludiant gan yr Awdurdod o ardaloedd lle nad oes cludiant cyhoeddus. Disgwylir safon uchel o ymddygiad gan ddisgyblion sy'n teithio gydag unrhyw fath o gludiant i'r ysgol. Gall disgyblion sy'n camymddwyn ar fysiau golli eu hawl i deithio'n ddi-dâl.

CYSYLLTIAD Â'R CARTREF

Ystyriwn fod cyswllt adeiladol rhwng y rheini a'r ysgol yn hanfodol er lles y plant. Gofynnwn i rieni gymryd diddordeb yn addysg eu plant a gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r berthynas hon.

Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth mae'r ysgol yn rhoi'r cyfle i bob rhiant arwyddo cytundeb ffurfiol pan mae ei blentyn yn ymuno â'r ysgol.

Ar ddechrau pob blwyddyn darperir calendr o brif ddigwyddiadau'r flwyddyn a gwahoddir rhieni i'r gwahanol weithgareddau a drefnir gan yr ysgol.

Fe drefnir cyfarfodydd rhieni ar gyfer pob blwyddyn yn ei thro. Gall rhiant hefyd, wrth gwrs, drefnu cyfweiliad â'r Pennaeth fel y bo angen ond mae'n rhaid gwneud trefniant ymlaen llaw trwy lythyr neu ar y ffôn.

HEALTH AND SAFETY AT SCHOOL

The school has adopted the Gwynedd Council's Health, Safety and Welfare Policy (copy of the policy available at the school). There is a Health and Safety representative in each of the following departments: Design and Technology, Science and Physical Education. If a problem arises, staff at the school report to the Health and Safety Co-ordinator and he/she will then arrange for appropriate steps to be taken. There will be a fire drill once a term according to the regulations. A number of staff members have been trained to administer First Aid and as fire marshalls.

TRAVELLING TO SCHOOL

Transport is arranged by the Authority from areas where there is no public transport. A high standard of behaviour is expected of pupils while travelling to school by any form of transport. Pupils who misbehave on buses may lose their right to free travel.

CONTACT WITH THE HOME

We believe that a good relationship between school and home is essential for the well-being of the child. Parents are encouraged to take an interest in their child's education and to do their utmost to foster this relationship.

In line with Government Guidelines the school gives every parent the opportunity to sign a formal agreement when their child enrolls at the school.

At the beginning of each school year parents are sent a calendar of the main events during the year and parents are invited to the various functions organised by the school.

Parents' meetings are arranged for each year group in turn. Parents may also arrange an interview with the Headteacher as necessary but prior arrangements must be made by letter or telephone.



CYTUNDEB CARTREF /YSGOL UWCHRADD

Gwnawn ein gorau i :

Sicrhau bod eich plentyn yn dilyn cwricwlwm addas ac yn cael ei ymestyn hyd eithaf ei allu.
Osod gwaith cartref addas a rheolaidd.
Annog eich plentyn i barchu ei hun ac eraill.
Sicrhau amgylchedd saff i'ch plentyn.
Ddysgu eich plentyn sut i fod yn aelod gwâr o gymdeithas.
Roi gwybod i chi am gynydd eich plentyn a chysylltu'n syth os oes problem gyda gwaith, ymddygiad, presenoldeb neu brydlondeb.
Roi cyngor i'ch plentyn ynglyn â dewisiadau addysgol a phersonol.
Ymateb yn brydlon i unrhyw fater yr hoffech ei drafod.

We will do our best to :

Ensure that your child follows a suitable curriculum and is extended to his/her full ability.
Set suitable and regular homework.
Encourage your child to respect himself and others.
Ensure a safe environment for your child.
Teach your child how to be a civilised member of society.
Inform you of your child's progress and contact you immediately if there is a problem with work, behaviour, attendance or punctuality.
Give your child advice concerning educational and personal choices.
Respond to you punctually regarding any matter you wish to discuss.

Gwnaf/Gwnawn ein gorau i :

Sicrhau bod fy/ein plentyn yn gwneud ei waith cartref mewn lle addas ac yn dal i fyny â gwaith a gollwyd.
Sicrhau bod fy/ein plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon.
Roi nodyn o eglurhad os yw fy/ein plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol.
Ddod i'r cyfarfodydd rhieni.
Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn cael digon o gwsg.
Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn parchu rheolau'r ysgol.
Wneud yn siwr bod gan fy/ein plentyn yr offer cywir.
Siarad efo fy/ein plentyn am ei fywyd a'i waith yn yr ysgol.
Ddweud wrth yr ysgol yn syth os oes unrhyw fater yn ein poeni ac am unrhyw newid gartref a all effeithio ar fy/ein plentyn.

Gwnaf fy ngorau i :

Weithio'n galed yn yr ysgol i gyrraedd fy nhargedau.
Wneud fy ngwaith cartref a gwaith cwrs yn brydlon ac hyd eithaf fy ngallu.
Gyflwyno fy ngwaith yn daclus.
Ddod â'r offer cywir i'r holl wersi.
Fod yn brydlon.
Fod yn bresennol a dal i fyny â gwaith y gallwn fod wedi ei golli.
Fod yn onest.
Gadw at holl reolau'r ysgol.
Wisgo gwisg ysgol.
Barchu fy hun ac eraill.
Ofyn am gymorth os oes gennyf broblemau.
Feddwl yn aeddfed am fy nyfodol, gwrando ar gyngor a gweithredu arno.

I will do my best to :

- Work hard in school and reach my targets.
- Do my homework and coursework punctually and to the best of my ability.
 - Present my work tidily.
 - Bring the correct equipment to all lessons.
 - Be punctual.
 - Be present and catch up on all work that I could have missed.
 - Be honest.
 - Keep to all the school rules.
 - Wear my school uniform.
 - Respect myself and others.
 - Ask for help if I have any problems.

I/We will do our best to :

Ensure that my/our child does his/her homework in a suitable place and catches up with any work he/she has missed.
Ensure that my/our child attends school regularly and arrives punctually.
Provide an explanatory note if my/our child has been absent from school.
Attend parents' meetings.
Ensure that my/our child has enough sleep.
Ensure that my/our child respects the school's rules.
Ensure that my/our child has the correct equipment.
Talk to my/our child about his life and work at school.
Inform the school immediately if there is any matter causing concern and of any change at home that could affect my/our child.

Arwyddwyd / Signed:

Ysgol / School)

ENW'R DISGYBL YN LLAWN/ PUPILS NAME IN FULL:

DOSB/CLASS: _____

Arwyddwyd/SIGNED: _____ (Disgybl / Pupil)

Arwyddwyd/Signed: _____ (Rhiant / Gwarchodwr)
(Parent / Guardian)

CLYBIAU A CHYMDEITHASAU

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau er mwyn ehangu gorpwlion y disgyblion a rhoi profiadau newydd iddynt.

Ceir nifer fawr o weithgareddau y gall disgyblion ymddiddori ynddynt yn yr ysgol yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol: chwaraeon fel pêl-fasged, rygbi, pêl-rwyd, Dringo, tenis a phêl-droed, Cangen yr Urdd, Dramâu, Corau, Ymweliadau â Theatrau, Teithiau Hanesyddol ac Addysgol, Cyfrifiaduron, sefydlu Busnes a'r Cyngor Ysgol i enwi ond rhai. Ceir mwy o wybodaeth trwy gysylltu â'r ysgol.

Os oes gan unrhyw blentyn ddiddordeb mewn rhyw weithgaredd arall nad yw'n rhan o raglen yr ysgol gofynnir iddo/iddi hysbysu'r athro dosbarth.

Y CYNGOR YSGOL

Ceir Cyngorau ysgol mewn amrywiaeth o feysydd Dysgu. Mae'r Cyngorau Ysgol yn sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn cael cyfle i leisio'u barn ar faterion sydd o bwys iddynt. Trwy gyfrwng y Cyngorau Ysgol caiff y disgyblion gyfrannu at benderfyniadau a wneir yn yr ysgol. Mae'r Cyngorau Ysgol yn rhoi profiad byw o ddemocratiaeth i ddisgyblion Ysgol Eifionydd. Etholir un cynrychiolydd grwpiau cofrestru. Mae aelodau Blwyddyn 10/11 o'r Cyngor hefyd yn mynychu cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethwyr.

TYNNU LLUN PLANT

O dro i dro bydd yr ysgol yn tynnu llun plentyn – gan amlaf yn unigol neu fel rhan o grŵp neu dim i roi cyhoeddusrwydd i lwyddiant. Weithiau caiff y lluniau hyn eu cyhoeddi yn y wasg neu ar safleoedd gwe yr Ysgol, Cyngor Gwynedd neu sefydliadau eraill y byddwn yn cydweithio â hwy. **Os oes gennych wrthwynebiad i'ch plentyn gael tynnu llun dylech gysylltu'n ysgrifenedig gyda'r Pennaeth.** Byddwn bob amser yn parchu teimladau rhieni.

CLUBS AND SOCIETIES

The school offers a variety of extra curricular activities that widen the pupils' horizons and provide them with new experiences.

There are numerous activities pupils can become involved in during the lunch hour at school and after school: e.g. basketball, tennis, rugby, netball, climbing and football, Urdd Branch, Plays, Choirs, Theatre visits, Historical and Educational visits, Computers, Enterprise Schemes and the School Council to name but a few. Further information may be obtained at the school

If a pupil is interested in an activity for which there is no provision in the school programme he/she should inform the group teacher.

THE SCHOOL COUNCIL

There are school Councils in many areas of learning. The School Councils provides pupils with the opportunity to express their opinions on issues which concern them. The School Councils enable pupils to contribute towards decisions made in the school. The School Councils also give pupils a first hand experience of democracy. One pupil from registration groups will be elected. Year 10/11 council members also attend School Governors meetings.

PHOTOGRAPHS OF PUPILS

From time to time the school takes photographs of pupils, either individually or as part of a group or team, usually to celebrate success. These photographs are sometimes published in the press or on the website of the School, Gwynedd Council or other establishments that we work with. **If you do not wish your child to be photographed, please contact the Headteacher in writing and we will respect your viewpoint.**



CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL

Mae'r ysgol yn codi tâl ar ddisgyblion am:

gostau llety a bwyd ar ymweliadau addysgol;
weithgareddau y tu allan i oriau ysgol;
arholiadau allanol mewn pynciau nad yw'r ysgol yn
parato'r disgyblion ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn honno;
arholiadau pan fo disgybl yn methu â chyflawni'r
gofynion neu'n methu'r arholiad heb reswm digonol;
difrod i eiddo'r ysgol neu am golli eiddo'r ysgol.

Gofynnir am **gyfraniad gwirfoddol** gan rieni pan na ellir
codi tâl am weithgareddau ond sicheir na waherddir
disgyblion rhag cymryd rhan pan na all eu rhieni gyfrannu.
Mae'n bosibl na fydd modd cynnal rhai gweithgareddau
heb gefnogaeth wirfoddol deilwng.

Ceir manylion pellach yn yr ysgol ynghyd â gwybodaeth am
ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ar y gofrestr ADY.

TREFN GWYNO

Dylid ceisio trafod unrhyw fater gyda'r athro neu gyda'r
Pennaeth. Dylid cyfeirio pob cwyn yn y lle cyntaf at y
Pennaeth; gellir gwneud hynny yn bersonol, drwy e-bost,
llythyr neu dros y ffôn. Bydd y Pennaeth yn edrych ar y
sefyllfa a gallwch ddisgwyl ymateb ymhen tridiau ar yr
hwyaf. Os nad ydych yn fodlon â hyn, gallwch anfon eich
cwyn yn uniongyrchol at Gadeirydd y Llywodraethwyr- d/o
Mrs. Marian Crowe, Clerc i'r Llywodraethwyr, Ysgol
Eifionydd, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9HS. Yn hyn o
beth, mae'r ysgol yn gweithio yn unol â chylchlythyr y
Cynulliad "Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu
Ysgolion (11/2012) sydd i'w gweld ar -

www.dysgu.cymru.gov.uk

<http://www.dysgu.cymru.gov.uk> Mae gennych yr hawl i
weld y mwyafrif o'r cofnodion a gedwir am eich plentyn
ynghyd â llawer o ddogfennaeth y Corff Llywodraethu. Y
mae Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun
Cyhoeddi sy'n cydymffurfio a gofynion y Ddeddf Rhyddid
Gwybodaeth ac mae copi ohono ar gael oddi wrth Mrs.
Marian Crowe, Clerc i'r Llywodraethwyr.

CHARGING FOR EDUCATIONAL ACTIVITIES

The school charges pupils for:-

board and lodging costs on educational visits;
activities outside school hours;
external examinations in subjects which the school does
not prepare pupils for during that particular school year;
examinations when the pupil fails to complete the
requirements or fails to attend the examination without
a sound reason;
damage to school property or for losing school property;

A voluntary contribution is requested from parents when
it is not possible to charge for an activity but no pupil will
be excluded from taking part when his/her parents cannot
contribute. It is possible that some activities will not be
held without sufficient voluntary contributions.

Further details are available at the school along with
information about the provision for pupils on the SEN
register.

COMPLAINTS PROCEDURE

Any matter can be raised with the teacher or Head teacher.
Complaints should be referred to the Head teacher in the
first instance. This can be done in person, by e-mail, letter
or by telephone. The Head teacher will then review the
situation and you will get a response within 3 days at the
latest. If you are still not satisfied, you can present your
complaint to the Chairman of the Governors – c/o Mrs.
Marian Crowe, Clerk to the Governors, Ysgol Eifionydd,
Porthmadog, Gwynedd.LL49 9HS. The school complies
with the Welsh Assembly guidelines on this matter "School
Governing Bodies Complaints Procedures" (11/2012) which
may be seen on www.learning.wales.gov.uk. You have the
right to see most of your child's records together and most
of the Governors' documents. The Governors have adopted
a Publication Policy which conforms to the demands of the
Freedom of Information Act and you may obtain a copy by
contacting Mrs. Marian Crowe, Clerk to the Governors.



Llywodraethwyr yn cynnal cyfarfodydd gyda rhieni

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 (adran 94 (13) nid oes yn rhaid i Gyrrff Llywodraethwyr yr ysgol gynnal Cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn i gael cyfarfod y Llywodraethwyr am hyd at 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol. Gellir cael fwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy unai:

Gysylltu â'r ysgol, safle we'r ysgol neu drwy fynd ar safle we'r Cynulliad.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parentsmeetingsstatutoryguidance/?lang=cy>

SUT I GAEL RHAGOR O WYBODAETH

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu copïau o offerynnau statudol a chylchlythyrau ymhob ysgol a gall y rhieni drefnu i ymweld â'r ysgol i gael mynediad at y dogfennau yn ddi-dâl.

Ceir casgliad llawn o ddatganiadau a pholisiau'r Llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Lleol yn yr ysgol yn ogystal â chynlluniau gwaith, meysydd llafur ac adroddiadau A.E.M. ar yr ysgol.

Bydd y Pennaeth yn darparu copïau o ddatganiadau (ac eithrio dogfennau hawlfraint) – a gellir archebu copïau gan y Cynulliad yn rhad ac am ddim (neu brynu rhai lle codir tâl amdanynt).

Dylid trefnu apwyntiad i ymweld â'r ysgol i gael mynediad i'r holl wybodaeth sydd ar gael - bydd peth gwybodaeth ar y cyfrifiadur a bydd yn rhaid sicrhau na fydd galw amdano yn ystod cyfnod yr ymweliad.

Ymweld â safle wê yr ysgol – ysgoleifionydd.org

Governors meetings with parents

In accordance with the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (section 94 (13) removes the previous requirement for the Governing Body to hold an annual meeting with parents. The Act enables parents to request up to three meetings in a school year with their children's school governing body. Further information on how to ask for a meeting either by: Contacting the school, school's website or by visiting the following website:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parentsmeetingsstatutoryguidance/?lang=en>

HOW TO GET MORE INFORMATION

The Welsh Government will provide copies of statutory instruments and circulars in each school and parents may arrange to visit the school in order to gain free access to the documents.

A full collection of the statements and policies made by the Governing Body and Local Education Authority is available at the school as are work schemes, syllabuses and any H.M.I. reports on the school.

The Head teacher will provide copies of statements (except copyright documents) – and copies can be ordered from the Welsh Assembly free of charge (or bought where a charge is made for them).

An appointment should be made to visit the school to gain access to all the available information - some information will be on the computer and it will be necessary to ensure that it will not be needed during the visit.

Visit the school website – ysgoleifionydd.org



PLAIN BLACK SHOES

NI CHANIAITEIR: GWISGO BŴTS, TRAINERS GWYN NEU DRAINERS GYDA MARCIAU, LOGOS NEU WADNAU GWYN NEU LIW

NOT PERMITTED: WEARING BOOTS. WHITE TRAINERS OR TRAINERS WITH MARKS, LOGOS, WHITE OR COLOURED SOLES.



TAILORED SHORTS



SIORTS CHWARAEON DU PLAEN (DIM PATRWYM, DIM LOGO)
PLAIN BLACK SPORT SHORTS
(NO PATTERN, NO LOGOS)

DIM LYCRA TYNN GAN GYNNWYS SIORTS SEICLO (NO TIGHT LYCRA INCLUDING CYCLING SHORTS)
DIM SIORTS CHWARAEON GYDA LOGO, STREIPS AYYB. (NO SPORTS SHORTS WITH LOGOS, STRIPES ETC.)
DIM COMBATS (NO COMBATS)
DIM SIORTS DENIM (NO DENIM SHORTS/CUTOFFS)

OPTIONAL: SUMMER HALF TERM ONLY

- ▶ Sulgwyn → Gwylia’u Haf.
- ▶ Siorts du plaen, parchus fel siorts pêl-droed YN UNIG fydd yn cael eu caniatáu.
- ▶ Ni chaniateir siorts lliwgar.
- ▶ Os bydd disgyblion yn troi fyny mewn siorts nad ydynt yn cydymffurfio a’r rheol yna gofynnir iddynt newid i drowsus ysgol. Gellir gofyn i chi ddod a trowsus i’r ysgol er mwyn iddynt fedru newid.
- ▶ Caniateir siorts gyda logo’r ysgol. / In addition shorts with the school logo are acceptable.

NI FYDDWN YN CANIATÁU / NOT ACCEPTABLE:



In the Physical Education lessons Black football shorts are the only option for boys and girls.

GWISG CHWARAEON — BECHGYN A MERCHED	PHYSICAL EDUCATION KIT—BOYS AND GIRLS
Crys Polo Coch yr Ysgol * Crys Rygbi Coch a Du yr Ysgol*	The School’s Red Polo Shirt The School’s Red and Black Rugby Shirt*
Siorts Du Plaen *	Plain Black Shorts*
Esgidiau Addysg Gorfforol ac Esgidiau Pêl-droed	Trainers and Football Boots
Sannau Pêl-droed/Hoci Du*	Black Football and Hockey Socks*
Lliain	Towel
Mae Crys Chwys Coch*, Trowsus Tracwisg Du* a Phadiau Crimog yn ddewisol.	Red Sweat Shirt*, Black Tracksuit Trousers* and Shin Pads are all Optional.

Mae’r Wisg Ysgol a Chwaraeon* ar werth yn yr Ysgol.
The school Uniform and Physical Education Kit* is available from the School

MYNEDIAD I'R YSGOL / SCHOOL ADMISSION

CRYNODEB O BOLISI MYNEDIAD YR AWDURDOD

SUMMARY OF THE AUTHORITY'S SECONDARY SECTOR ADMISSION POLICY

Sut wyf yn ymgeisio am le mewn Ysgol?

Yr Adran Addysg yw awdurdod caniatâu mynediad yr ysgolion cymuned a'r rhai sydd o dan reolaeth wirfoddol ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch mynediad. Nid oes gan benaethiaid yr ysgolion hyn unrhyw ran yn y broses fynediad ac ni fyddant yn trafod y lleoedd sydd ar gael. Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau am fynediad i'r Awdurdod yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflenni a ddarperir (ar gael yn yr ysgolion neu ar www.gwynedd.gov.uk/mynediadysgolion). Cadarnheir penderfyniadau hefyd yn ysgrifenedig. Ni all yr Awdurdod drafod argaeledd lleoedd dros y ffôn.

Rhoddir ystyriaeth cyfartal i bob dewis. Cewch eich annog i ddatgan mwy nag un dewis. Gallwch ddefnyddio dalen ar wahân i ddatgan mwy na thri. Os oes lle ar gael mewn mwy nag un ysgol, dim ond eich dewis cyntaf a gynigir i chi. Oni all yr Awdurdod gynnig unrhyw un o'ch dewisiadau i chi, caiff unrhyw ddewis newydd a dderbynnir ei drin fel cais hwyr. Efallai na fydd yr Awdurdod yn gallu cynnig lleoedd i rai sy'n anfon ceisiadau yn hwyr os yw'r ysgolion hynny eisoes yn llawn.

Pryd y dylwn ymgeisio?

	Ffurflenni ar Gael Forms Available	Dyddiad Cau Closing Date	Hysbysu Rhieni Parents Informed
Uwchradd Secondary	Medi 2024 September 2024	20/12/2024	01/03/2025

Mae'n hanfodol bod rhieni'n ymgeisio cyn y dyddiadau cau gan y cynigir lleoedd i'r rheini sydd wedi ymgeisio ar amser cyn unrhyw geisiadau hwyr, hyd yn oed os yw'r ceisiadau hwyr o'r dalgylch. Fodd bynnag, dan amgylchiadau eithriadol (e.e. salwch), gall yr Awdurdod ystyried ceisiadau hwyr sy'n cyrraedd cyn y gwneir cynigion.

Sut mae'r Awdurdod yn dyrannu lleoedd?

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi dalgylchol ac fel arfer mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn y dalgylch y maent yn byw ynddi a ble bydd yr Awdurdod wedi gwneud darpariaeth o ran gofod, staffio ac adnoddau eraill yn cynnwys cludiant ysgol. Mae gan bob ysgol ddalgylch ddiffiniedig a gellir cael golwg ar fapiau swyddogol yn dangos y ffiniau, yn y Swyddfa Addysg neu yn yr ysgolion unigol.

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae mynediad i ysgolion cynradd yn amodol ar gyfyngu meintiau dosbarth i 30 os cafodd y rhif mynediad ei gyrraedd.

How do I apply for a School place?

The Education Department is the admissions authority of the community and voluntary controlled schools and is responsible for making decisions on admissions. Headteachers of these schools have no role in the admissions process and will not discuss the availability of places. All applications for admission must be submitted to the Authority in writing, using the forms provided (available at the schools or on www.gwynedd.gov.uk/schooladmissions). All decisions will also be given in writing. The Authority is not able to discuss the availability of places over the telephone. All preferences are treated equally. You are encouraged to state more than one preference. You may use a separate sheet to state more than three. If a place is available at more than one school, only the highest of your preferences available will be offered to you. If the Authority is unable to offer you any of your preferences, any new preferences received will be treated as late applications. The authority may not be able to offer places to late applicants if those schools are already full.

When should I apply?

It is essential that parents apply before the closing dates as places will be offered to those who have applied on time before any late applications, even if the late applications are from the catchment area. However the Authority is able to consider late applications which arrive before offers are made in exceptional circumstances (e.g. illness).

How does the Authority allocate places?

The Authority operates a catchment area policy and pupils normally attend the school in whose catchment area they reside and where the Authority will have made provision with regard to accommodation, staffing and other resources including school transport. Each school has a defined catchment area and official maps showing the boundaries can be seen at the Education Office or in the individual schools.

The Authority will comply with parental preference until the school's admission number has been attained. Admission to primary schools is subject to limiting class sizes to 30 if the admission number has been reached.

Beth os ceir mwy o geisiadau nag sydd o leuedd ar gael?

Gall yr Awdurdod roi mynediad i blant nes bod y nifer sy'n cael mynediad uwchben y rhif mynediad cyhyd nad yw derbyn yn effeithio'r ysgol yn y tymor hir a ddim yn cael effaith anfanteisiol ar ysgolion cyfagos.

Ble mae mwy yn ymgeisio nag sydd o leuedd ar gael mewn ysgolion cymuned ac o dan reolaeth Wirfoddol, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio isod i flaenoriaethu ceisiadau.

1. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol.
2. Bydd yr Awdurdod yn ystyried achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r Awdurdod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Swyddog Meddygol y Sector perthnasol, ble mae angen rhoi mynediad i blentyn i ysgol oherwydd eu lles meddygol neu gymdeithasol neu ble mae datganiad plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig yn enwi ysgol neilltuol.
3. Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch ddiffiniedig ysgol. Os ceir mwy o geisiadau o'r fath nag sydd o leuedd ar gael, caiff lleoedd eu blaenoriaethu gan ddefnyddio meini prawf 4-6 isod.
4. Disgyblion sydd ar hyn o bryd ac a fydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fo'r disgybl i fod i ddechrau yno (gan roi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol).
5. Disgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd a gynhelir o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd (gan roi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol). Mae'r maen prawf yma yn berthnasol i geisiadau i ysgol uwchradd yn unig.
6. Pellter cyfeiriad y cartref o gyfeiriad yr ysgol.

Os yw'r plentyn yn rhannu ei amser rhwng y ddau riant, cyfeiriad cartref plentyn at ddiben mynediad yw'r cyfeiriad ble mae ef/hi yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Dylid sicrhau y caiff yr Adran Addysg ei hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau. Gellir tynnu'n ôl gynnig o le os canfyddir nad yw'r cyfeiriad a roddwyd yn ddilys.

Caiff pob pellter ei fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf o ddrws ffrynt yr adeilad sy'n gartref i'r plentyn at fynedfa gydnabyddedig agosaf yr ysgol a chaiff ei fesur gan ddefnyddio systemau mapio digidol yr Awdurdod. Ni wahaniaethir yn erbyn disgyblion o du allan i'r Awdurdod Lleol o'u cymharu â disgyblion o Wynedd wrth ddefnyddio'r meini prawf pellter.

Mae brawd neu chwaer yn cynnwys hanner brawd/chwaer, llys frawd/chwaer, plant sydd wedi cael eu mabwysiadu a phlant maeth yn byw yn yr un teulu.

Mewn unrhyw achosion o efeilliaid neu enedigaethau lluosog eraill ble all yr Awdurdod ond cynnig rhai o'r lleoedd sydd eu hangen, gall y rhieni dderbyn y lleoedd sydd ar gael neu eu cadw ar agor hyd 31 Awst yn y gobaith y gall lleoedd eraill ddod ar gael o blith y rhestr aros.

What if there are more applications than places?

The Authority may admit children in excess of the admission number if such acceptance will not adversely affect the school in the longer term and will not have a detrimental effect on neighbouring schools.

Where community and voluntary controlled schools are oversubscribed the following oversubscription criteria will be used to prioritise applications.

Priority will be given to looked after (In care) or previously looked after children.

1. The Authority will consider cases referred to the Authority by Social Services or the relevant Sector Medical Officer where a child's admission to a particular school is necessary for their medical or social well-being or where a child's statement of special educational needs names a particular school.
2. Pupils who live within the defined catchment area of a school. If such applications exceed the admission number places will be prioritized using criteria 4-6 below.
3. Pupils who currently and who will still have a brother or sister attending the school when the pupil is due to start (with priority being given to children who live closest to the school).
4. Pupils who attend a maintained primary school within the catchment area of the secondary school (with priority being given to children who live closest to the school). This criteria is only relevant to applications to a secondary school.
5. The distance of the home address from that of the school.

If the child spends time split between both parents a child's home address for admissions purposes is the address where he/she spends the majority of the school week. Please ensure that any changes of address before and after the closing date are reported to the Education Department. Any place offered as the result of a fraudulent address may be withdrawn.

All distances will be measured by the shortest walking distance from the front door of the building your home is within to the nearest recognised entrance of the school and measured using the Authority's digital mapping systems. Pupils from outside the Local Authority are treated no less favourably than those from Gwynedd when applying the distance criteria. Brother or sister includes half-siblings, step siblings, adoptive and foster children living in the same household.

In any cases of twins or other multiple births where the Authority is only able to offer some of the places required the parents may take up the places on offer or keep them open until 31st of August in the hope that other places may become available from the waiting list.

GWYLIAU YSGOL 2025—2026

TYMOR

Hydref 2025	1 Medi, 2025 – 19 Rhagfyr, 2025
Gwanwyn 2026	5 Ionawr, 2026 – 27 Mawrth, 2026
Haf 2026	13 Ebrill, 2026 – 20 Gorffennaf, 2026

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth, 2 Medi 2025.

GWYLIAU

27 Hydref 2025	–	31 Hydref 2025	Hanner Tymor
22 Rhagfyr 2025	–	2 Ionawr 2026	Gwyliau'r Nadolig
16 Chwefror 2026	–	20 Chwefror 2026	Hanner Tymor
30 Mawrth 2026	–	10 Ebrill 2026	Gwyliau'r Pasg
4 Mai 2026			Calan Mai
25 Mai 2026	–	29 Mai 2026	Haner Tymor
21 Gorffennaf 2026	–	31 Awst 2026	Gwyliau'r Haf

Bydd yr Ysgolion yn ail agor ddydd Mawrth, 1af o Fedi 2026 i athrawon, a dydd Mercher, 2il o Fedi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

TERM

October 2025	1 September, 2025 – 19 December, 2025
Spring 2026	5 January, 2026 – 27 March, 2026
Summer 2026	13 April, 2026 – 20 July, 2026

Pupils will return to school on Tuesday, 2 September, 2025

HOLIDAYS

27 October 2025	–	31 October 2025	Half Term
22 December 2025	–	2 January 2026	Christmas Holidays
16 February 2026	–	20 February 2026	Half Term
30 March 2026	–	10 April 2026	Easter Holiays
4 May 2026			May day
25 May 2026	–	29 May 2026	Half Term
21 July 2026	–	31 August 2026	Half Term

Schools will re-open for teachers on Tuesday, 1 September, 2026 and for pupils on Wednesday, 3 September (to be confirmed).

Rhai o gyd-destunau blwyddyn 7:

